Grŵp Hanes Deganwy.

Taith Gerdded Llanrhos

Ar 21ain Mehefin aeth tua 30 o aelodau'r Grŵp i ymweld ag Eglwys Blwyf Llanrhos lle cawsom gyflwyniad byr am hanes yr Eglwys gan Fiona Richards a'r Ficer, y Parchedig Bob Griffiths, wrth law i ateb unrhyw gwestiynau ac i'n tywys o amgylch yr Eglwys. Dywedir i Eglwys Llanrhos cael ei sefydlu yn y chweched ganrif a'i chysegru i Santes Hilary (neu Eleri). Yn ddiweddarach, oddeutu 1282, fe ailadeiladwyd yr Eglwys a'i chysegru i'r Santes Fair. Tros y blynyddoedd, cafodd llawer o waith ei wneud i'w atgyweirio, yn bennaf gan deulu Mostyn. Hefyd, rhoddwyd llawer o'r arteffactau a welir yn yr Eglwys, megis y bedyddfaen a'r organ, gan deulu Mostyn.

Ar ôl cerdded o amgylch fynwent yr Eglwys, aethom ymlaen i Ffynnon Santes Fair sydd gerllaw, ac yna cawsom sgwrs gan Ken Davies am hanes a chefndir y ffynnon, yn arbennig y gwaith helaeth a wnaed i'w adfer yn dilyn llifogydd 1993. Ar yr adeg hynny fe orweddai yn guddiedig dan drwch o goed, llwyni ac isdyfiant yn ogystal â sbwriel gerddi. Gyda thîm o gynorthwyr brwd ac egniol dan arweiniad Ken, fe lwyddwyd i glirio'r nant o'r prysgwydd i ddatgelu'r Ffynnon. Mae'r llwybr cyhoeddus gerllaw yn galluogi cerddwyr i weld y Ffynnon. Yn anffodus, mae'r holl waith da a wnaed dan fygythiad erbyn hyn wrth i'r isdyfiant ymledu a gorchuddio'r Ffynnon unwaith eto.

I derfynu, aethom i Hen Ysgol Llanrhos lle cafwyd cyflwyniad gan David Rowley, Cadeirydd Grŵp Prosiect Llanrhos. Adeiladwyd yr ysgol ym 1822 ac fe'i defnyddiwyd fel ysgol am y tro olaf ym 1898, ond ers hynny cafodd ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd, etholiadau a gan grwpiau cymunedol. Mae'n adeilad rhestredig ond mae angen llawer o waith i'w adfer. Derbyniodd y Grŵp Prosiect y buddsoddiad sylweddol sydd ei angen i atgyweirio'r adeilad i ddarparu canolfan fodern y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol weithgareddau megis cyfarfodydd busnes, y gymuned, addysg, partïon i blant a grwpiau, chwaraeon ac adloniant yn ogystal â digwyddiadau eraill. Diolch i aelodau'r Grŵp Prosiect am y lluniaeth a baratowyd ar ein cyfer. JMR Davies

History of Deganwy Group.

Llanrhos Walk.

On the 21st June 2011 members of the group met at Llanrhos Parish Church where we were given an introductory talk on history by Fiona Richards with the vicar, Rev. Prebendary Bob Griffiths also on hand to answer any questions and guide us round the church. Llanrhos church was reputed to be founded in the sixth century and dedicated to St Hilary (or Eleri). Later, circa 1282, it was rebuilt and dedicated to St Mary. Over the years it has been extensively restored mainly by the Mostyn family. Also many of the artefacts at the church have been gifted or donated by the Mostyn family, such as the font and organ.

Following a walk around the cemetery adjacent to the church we proceeded to the nearby Ffynnon Santes Fair, St Mary's Well, where Ken Davies gave a talk on the history and background, particularly to the extensive restoration following the floods of 1993. At that time it was hidden behind trees shrubs and undergrowth together with garden rubbish. Ken led a team of interested and enthusiastic helpers clearing the bank and stream to expose the well. A public footpath is adjacent to the site which allows the Well to be seen by walkers. Unfortunately all the good work is starting to be undermined as the undergrowth is starting to obscure the well again.

Finally, the group ended up at Llanrhos Old School where we were given a talk by Mr David Rowley, Chairman of the Llanrhos Project Group.
The school was built in 1822 and last functioned as a school in 1898 since when it has been used for meetings, elections, and group activities. It is a listed building but in dire need of restoration. The Project group have obtained the substantial investment required to renovate the building to provide a modern centre which can then be used for various activities, examples of which are meetings for business, community, education, children's parties and groups, sports and leisure together with other events. We would also thank members for providing us with refreshment.
JMR Davies